**Fframwaith Datblygu Cenedleathol**

**Diweddariad - Medi 2017**

## Pwrpas

Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad ar y Fframwaith Datblygu Cenedleathol (FfDC) yn dilyn y cyfarfod 8 Mehefin 2017.

## Cefndir

Bydd y FfDC yn gynllun datblygu defnydd tir cenedlaethol a fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru sy'n bodoli eisoes. Bydd yn gosod allan y fframwaith gofodol dros 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru, yn rhoi cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith newydd a thwf ac yn nodi sut bydd amcanion defnydd tir y Llywodraeth yn cael eu cymryd ymlaen ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

## Diweddariad

Yn dilyn y cyfarfod ym mis Mehefin daeth yr ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu drafft yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig ar gyfer y FfDC i ben ar 21 Gorffennaf. Derbyniwyd 31 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, cynghorau tref a chymuned a chyrff cynrychioladol. Mae'r ymatebion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd i hysbysu'r adroddiad cwmpasu terfynol. Bydd yr Adroddiad Cwmpasu yn cael ei ddefnyddio i asesu'r FfDC er mwyn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r broses o lunio'r cynllun.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu gyda amryw o rwpiau ac mae mwy o fanylion ar gael yn y cynllun ymgysylltu. Mae gwaith yn mynd ymlaen ar y materion a'r opsiynau, a'r opsiwn a ffefrir, a bydd hyn yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ymhellach gyda rhanddeiliaid amrywiol ledled Cymru ym mis Hydref 2017 i gyfrannu tuag at ddatblygu'r cam hwn o ddatblygiad y cynllun.

## Camau Nesaf

Ym mis Ebrill 2018 byddwn yn ymgynghori ar y materion, yr opsiynau a'r opsiwn a ffefrir.

Y ffordd orau o gael gwybod am y FfDC yw trwy ychwanegu'ch hun at y rhestr bostio. Cysylltwch â ni a gofynnwch i gael eich ychwanegu. Gallwch gofrestru hefyd ar gyfer ein newyddlen.